# Trefniadau Gwrth-dwyll – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4643A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno 4

Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad 5

Pam fod trefniadau gwrth-dwyll yn bwysig 5

Yr hyn a ganfuom 5

Mae ffocws y Cyngor ar lywodraethu a rheolaethau cryf yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer atal a chanfod twyll ond mae cyfle i gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau 5

Ein hargymhellion i'r Cyngor 10

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano 11

# Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

## Ein dyletswyddau archwilio

1 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Fe adnabuom fod trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor yn risg bosibl i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol trwy ein hasesiad lleol o risg archwilio. Fe gynhaliom ni'r prosiect hwn gan roi sylw penodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

## Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

2 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- asesu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran gweithredu'r 15 Argymhelliad a wnaed yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Gwella Ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020;
- cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol i atal a chanfod twyll ac, felly, i'w helpu i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau; ac
- adnabod agweddau ar y trefniadau y gellir eu cryfhau.

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

3 Fe wnaethom asesu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran gweithredu'r 15 argymhelliad a wnaed yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar dwyll[1]. Fe wnaethom hefyd adolygu i ba raddau y mae gan y Cyngor drefniadau priodol i atal a chanfod twyll ac, felly, i'w helpu i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau.

4 Roeddem yn amcanu at ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran ei ddull o atal a chanfod twyll?

5 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn amcanu at eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i lunio ein canfyddiadau.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Gwella Ein Perfformiad' – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020

# Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

6 Goleuwyd ein hadolygiad gan adolygiad o ddogfennau'r Cyngor a chyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau sydd â rôl allweddol yn nhrefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r ffynonellau hyn.

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Awst a mis Hydref 2024.

# Pam fod trefniadau gwrth-dwyll yn bwysig

8 Datganodd adroddiad yn 2019[2] gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y gwerth y mae'r sector cyhoeddus yn ei golli i dwyll yn anhysbys. Fe wnaeth adroddiad gan Swyddfa'r Cabinet[3] yn 2019 nodi ystod uchaf ac isaf ar gyfer colledion tebygol yng ngwariant llywodraeth a oedd rhwng 0.5% a 5% o wariant. Mae cymhwyso'r amcangyfrifon hynny i gyllideb refeniw gros Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o £295 miliwn yn 2024-25[4] yn awgrymu y gall colledion o ganlyniad i dwyll a gwall fod unrhyw le rhwng £1.5 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn.

# Yr hyn a ganfuom

## Mae ffocws y Cyngor ar lywodraethu a rheolaethau cryf yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer atal a chanfod twyll, ond mae cyfle i gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau

9 Ar y cyfan, canfuom fod **ffocws y Cyngor ar lywodraethu a rheolaethau cryf yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer atal a chanfod twyll, ond bod cyfle i gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

### Gallai diwylliant gwrth-dwyll y Cyngor gael ei gryfhau ymhellach trwy estyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll i'r holl staff ac aelodau

10 Y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol sydd â chyfrifoldeb dynodedig am drefniadau gwrth-dwyll yn y Cyngor. Mae atebolrwydd ar lefel ddigon uchel yn helpu i bennu disgwyliadau diwylliannol mewn perthynas â

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2019

[3] Swyddfa'r Cabinet, Cross-Government Fraud Landscape Annual Report 2019, Chwefror 2020

[4] Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Alldroeon Refeniw Llywodraeth Leol

threfniadau gwrth-dwyll. Mae hefyd yn darparu mynediad eglur at y tîm arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11 Mae dull y Cyngor lle mae trefniadau gwrth-dwyll yn y cwestiwn yn gosod pwyslais sylweddol ar ddiwylliant llywodraethu cryf a lleihau i'r eithaf y risg o dwyll trwy reolaethau a systemau mewnol effeithiol. Mae gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rôl allweddol yn hyn trwy ei weithgarwch rheolaidd i brofi systemau. Dywedodd swyddogion y siaradom ni gyda hwy fod mynychder a chadernid archwiliadau'n effeithio ar y diwylliant yn y Cyngor ac yn rhwystro twyll.

12 Mae polisi gwrth-dwyll a llygredigaeth y Cyngor yn nodi'n glir na fydd twyll yn cael ei oddef. Adlewyrchir hyn yn ei Ddatganiad ar y Strategaeth Wrth-dwyll ar gyfer Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor hefyd. Ond er bod y dogfennau hyn ill dwy'n cyfeirio at sancsiynau a chanlyniadau, cyfyngedig yw'r enghreifftiau o'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w ymateb i dwyll profedig. Gall gwneud hynny rwystro twyll a helpu i ddangos nad yw'r Cyngor yn goddef twyll.

13 Er bod swyddogion yn y Cydwasanaeth Budd-daliadau'n cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll, ni ddarperir hyfforddiant cyfatebol yn rheolaidd i holl staff ac aelodau'r Cyngor. Nid yw ymwybyddiaeth o dwyll yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff ac aelodau newydd ychwaith. Mae hyn yn creu'r risg nad yw'r holl staff yn deall eu rôl o ran helpu i ganfod ac atal twyll. Byddai hyfforddiant gwrth-dwyll effeithiol yn helpu staff ac aelodau i ddeall eu rôl hwy mewn perthynas â threfniadau gwrth-dwyll, yn rhoi iddynt yr hyder a'r sgiliau i hysbysu ynghylch twyll tybiedig, ac yn cyfrannu at ddiwylliant gwrth-dwyll y Cyngor.

## Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r risg o dwyll i helpu i adnabod a rheoli'r risg o dwyll

14 Mae asesiad o'r risg o dwyll yn helpu sefydliad i adnabod gwahanol fathau o dwyll a mynd i'r afael â hwy, yn ogystal ag unrhyw wendidau mewn trefniadau gwrth-dwyll neu feysydd lle ceir mwy o risg o dwyll. Mae hefyd yn helpu i dargedu adnoddau a gweithgareddau'n briodol, yn enwedig wrth i risgiau newydd o dwyll ddod i'r amlwg.

15 Mae'r Cyngor yn cwblhau asesiad blynyddol o'r risg o dwyll i oleuo ei raglen waith Archwilio Mewnol. Mae'r asesiad yn ystyried y risg o dwyll ar draws systemau'r Cyngor ac yn defnyddio ystod o ffynonellau mewnol ac allanol. Wedyn mae rhaglen waith flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei dylunio i brofi'r systemau a'r rheolaethau hynny. Mae hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod rheolaethau'n effeithiol neu'n adnabod gwendidau y gallai twyllwyr fanteisio arnynt.

16 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n adolygu ac yn cymeradwyo'r rhaglen waith Archwilio Mewnol ond nid yw'n ystyried yr asesiad o'r risg o dwyll ei hun. Gallai rhannu'r asesiad gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio helpu aelodau i ddeall y risgiau o dwyll yn well yn ogystal â'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd i'w lleihau i'r eithaf. Mae hefyd yn helpu i atgyfnerthu bod y Cyngor yn cymryd twyll o ddifrif.

17 Nid yw’r risg o dwyll wedi’i chynnwys ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, oherwydd yr ystyrir bod y risg yn cael ei rheoli trwy drefniadau presennol. Mae hyn yn gyson â phroses rheoli risgiau’r Cyngor, nad yw ond yn ychwanegu risgiau at gofrestrau corfforaethol a gwasanaethau os nad ydynt yn cael eu rheoli trwy fusnes fel arfer. Fodd bynnag, mae’r Pennaeth Archwilio Mewnol yn eistedd ar y grŵp risgiau corfforaethol, felly mae mewn sefyllfa dda i uwchgyfeirio unrhyw faterion a adnabyddir trwy’r asesiad o’r risg o dwyll i’r gofrestr gorfforaethol os oes angen.

## Mae gan y Cyngor bolisïau priodol i ategu ei ddull gwrth-dwyll, ond mae angen adolygu’r Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ar frys

18 Mae Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth yn nodi dull y Cyngor ac yn diffinio cyfrifoldebau am reoli risgiau o dwyll. Fodd bynnag, nid yw Polisi’r Cyngor wedi cael ei ddiweddaru ers 2016 a dylai gael ei adolygu’n ffurfiol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Hefyd, er bod y Polisi ar gael yn rhwydd ar wefan a mewnrwyd y Cyngor, nid yw’r Cyngor yn ei hyrwyddo’n weithredol. Byddai rhoi cyhoeddusrwydd i’r Polisi wedi’i ddiweddaru’n rhoi cyfle i’r Cyngor godi ymwybyddiaeth o drefniadau gwrth-dwyll ac yn dangos nad yw’n goddef twyll o gwbl.

19 Tanategir y Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth gan fframwaith polisi cryf ac mae’n cynnwys cysylltiadau â nifer o bolisïau eraill megis y Cod Ymddygiad a’r Polisi Chwythu’r Chwiban. Mae’r dogfennau hyn wedi’u diweddaru ac ar gael yn rhwydd ac yn nodi canllawiau eglur ar gyfer staff ac aelodau’r Cyngor.

20 Rhaid i staff ac aelodau’r Cyngor ddatgan unrhyw fuddiannau wrth ddechrau swydd newydd a dylent ddiweddaru hyn fel y bo angen. Fodd bynnag, nid oes cronfa ddata ganolog o fuddiannau staff, a rheolwyr sy’n gyfrifol am rhoi unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol ar waith pan all fod gwrthdaro buddiannau lle mae staff yn y cwestiwn. Heb gofrestr ganolog, nid yw’n glir sut y mae’r Cyngor yn cael sicrwydd ar lefel gorfforaethol bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru’n briodol.

## Mae’r Cyngor yn nodi cyfrifoldebau eglur ar gyfer gwaith gwrth-dwyll a gall gael mynediad at staff arbenigol pan fo angen

21 Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau eglur ar gyfer gwaith gwrth-dwyll. Mae’r Cydwasanaeth Budd-daliadau’n ymchwilio i dwyll gostyngiadau’r dreth gyngor ac yn gweithio gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i adnabod twyll budd-daliadau ac ymchwilio iddo. Mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn asesu pob achos arall posibl o dwyll ac yn ymchwilio iddynt, gan addasu ei raglen waith i wneud lle i ymchwiliadau fel y bo angen.

22 Mae gan y Cydwasanaeth Budd-daliadau swyddog twyll hyfforddedig sy’n gymwys i gynnal ymchwiliadau. Ond nid oes unrhyw swyddogion gwrth-dwyll arbenigol yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac nid yw staff yn y tîm wedi cael unrhyw hyfforddiant diweddar sy’n ymwneud ag ymchwilio i dwyll. Yn lle hynny, mae’r Cyngor yn dibynnu ar brofiad a gwybodaeth aelodau hirsefydlog o’r tîm Archwilio Mewnol.

23 Mae'r Cyngor hefyd yn gallu defnyddio ei asesiad blynyddol o'r risg o dwyll i ddeall a oes angen iddo ddod â sgiliau arbenigol i mewn i ategu ei raglen waith. Er nad oes unrhyw enghreifftiau diweddar o sefyllfaoedd lle mae'r Cyngor wedi prynu cymorth gwrth-dwyll arbenigol i mewn, mae swyddogion yn cydnabod, wrth i dwyll ddod yn fwy soffistigedig, y gall fod angen capasiti neu arbenigedd ychwanegol arno.

## Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd gweithredol o ddadansoddeg data yn ei waith gwrth-dwyll ond nid yw'n asesu a yw'n cael y budd mwyaf posibl o gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol

24 Nid oes gan y Cyngor gynllun blynyddol penodol ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ond mae ei waith i fynd i'r afael â thwyll yn cynnwys dulliau rhagweithiol ac ymatebol. Mae hyn yn cynnwys:

- rhaglen waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i asesu cadernid systemau a rheolaethau;
- ymateb i fwletinau twyll i asesu a yw twyll sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill ar hyn o bryd yn effeithio ar y Cyngor neu'n fygythiad iddo;
- ymateb i atgyfeiriadau sy'n ymwneud â thwyll posibl ac ymchwilio iddynt;
- defnyddio meddalwedd dadansoddi data i ddadansoddi a pharu data mewnol i adnabod anghysonderau ar gyfer cynnal ymchwiliadau a dargedir yn fwy; a
- chyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol[5].

25 Roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n teimlo bod proses y Fenter Twyll Genedlaethol yn fuddiol ac yn darparu sicrwydd ynghylch eu trefniadau gwrth-dwyll. Ond nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n ffurfiol i asesu effeithiolrwydd ei waith fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol ac adrodd arno. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r Cyngor yn adnabod cyfleoedd i gynyddu i'r eithaf effaith ei ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol, a'i fod felly o bosibl yn colli cyfleoedd i adnabod achosion o dwyll. Mae hefyd yn cyfyngu ar oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar weithgarwch gwrth-dwyll allweddol.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio gwersi a rennir i gryfhau ei drefniadau gwrth-dwyll

26 Mae rhannu data i helpu i ddod o hyd i dwyll yn faes sy'n esblygu'n gyflym ac fe'i hwyluswyd gan newidiadau yn y gyfraith. Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu data personol i atal twyll yn y sector cyhoeddus, ei ganfod, ymchwilio iddo ac erlyn y rhai sy'n ei gyflawni. Mae'r Ddeddf

[5] Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ganfod ac atal gwerth mwy na £49.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £2.37 biliwn ledled y DU.

yn cydnabod y gallai rhannu data'n ehangach wella'r modd y mae twyll yn cael ei atal a'i ganfod a'r modd yr ymchwilir iddo.

27 Canfuom enghreifftiau cyfyngedig o sefyllfaoedd lle mae'r Cyngor yn cydweithio'n ffurfiol gyda sefydliadau eraill mewn perthynas â gwaith gwrth-dwyll. Mae gan y Cyngor femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i rannu data at ddibenion gwaith gwrth-dwyll ac mae protocol yn ei le i rannu data diogel rhwng awdurdodau.

28 Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o nifer o rwydweithiau a grwpiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn bosibl rhannu gwersi a chudd-wybodaeth mewn perthynas â thwyll. Mae swyddogion hefyd mewn deialog reolaidd gyda chynghorau cyfagos. Mae'r Cyngor wedi defnyddio gwersi o'r ffynonellau hyn i oleuo ei asesiadau o'r risg o dwyll a'r raglen brofi wedi hynny, ac i asesu a yw enghreifftiau o dwyll a brofwyd mewn ardaloedd eraill yn effeithio ar Dorfaen.

## Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael gwybodaeth gyfyngedig am waith gwrth-dwyll sy'n cyfyngu ar ei allu i adolygu effeithiolrwydd trefniadau cyfredol

29 Mae'r Cyngor yn cynnal cofnod o golledion o ganlyniad i dwyll a gafwyd ac a adferwyd o fewn y Cydwasanaeth Budd-daliadau, ond nid ar draws y sefydliad ehangach. Mae hyn yn ei gwneud yn anos deall effaith lawn twyll ar y Cyngor.

30 Nid oes unrhyw adroddiadau pwrpasol ar waith gwrth-dwyll wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dros y blynyddoedd diwethaf. Yn lle hynny, mae'r pwyllgor yn dibynnu ar adroddiadau Archwilio Mewnol rheolaidd ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae'r ail o'r rhain yn darparu trosolwg byr o drefniadau a gweithgarwch gwrth-dwyll ond nid yw'n cynnwys digon o fanylder i alluogi aelodau i graffu ar drefniadau cyfredol na'u herio.

31 Mae adrodd ar drefniadau a gweithgarwch gwrth-dwyll wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn cynghorau'n bwysig gan ei fod yn gallu darparu'r wybodaeth a'r gudd-wybodaeth y mae ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu hangen i asesu a herio effeithiolrwydd. Gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd hyrwyddo'r neges na fydd twyll yn cael ei oddef, gan gefnogi gwaith swyddogion sy'n gyfrifol am drefniadau a gweithgarwch gwrth-dwyll.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

**Argymhellion**

A1 Dylai'r Cyngor hyrwyddo ei ddull dim goddefgarwch lle mae twyll yn y cwestiwn a sicrhau bod yr holl staff ac aelodau'n deall eu cyfrifoldebau trwy:

- ddiweddaru ei Bolisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a rhoi cyhoeddusrwydd iddo; ac
- ymgorffori hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll yn y broses sefydlu ar gyfer yr holl gyflogeion ac aelodau newydd.

A2 Dylai'r Cyngor estyn ei gofnod o golledion o ganlyniad i dwyll a gafwyd ac a adferwyd fel ei fod yn cynnwys yr awdurdod cyfan. Bydd hyn yn ei alluogi i asesu effaith lawn twyll a defnyddio'r cofnod i oleuo asesiadau o'r risg o dwyll yn y dyfodol.

A3 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael digon o wybodaeth i gyflawni ei ddyletswyddau ac asesu effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll. Dylai hyn gynnwys yr asesiad blynyddol o'r risg o dwyll a gwybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol a gwaith gwrth-dwyll arall a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

# Atodiad 1

## Y cwestiynau a'r meini prawf archwilio

**Arddangosyn 2: y cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio**

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran ei ddull o atal a chanfod twyll?

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth a Diwylliant:** | |
| 1. A yw'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da? | • Mae'r Cyngor wedi gwneud datganiad eglur na fydd twyll a gyflawnir yn erbyn y sefydliad gan unrhyw un mewnol neu allanol yn cael ei oddef ac y byddir yn ymdrin ag ef yn y ffordd gryfaf.<br>• Mae Cabinet ac Uwch Dîm Arwain (UDA) y Cyngor yn hyrwyddo gwaith gwrth-dwyll.<br>• Mae'r Cyngor yn meithrin hyder ymhlith cyflogeion bod twyll yn cael ei gymryd o ddifrif, ac y cymerir camau gweithredu i ymdrin â thwyll. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Fframwaith Rheoli a Rheolaeth Risg** | |
| 2. A yw'r Cyngor yn cynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risg o dwyll? | • Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad trylwyr o'r risg o dwyll yn y ddwy flynedd ddiwethaf i ddarparu arfarniad gonest o risg a'r adnoddau y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r risgiau a adnabuwyd.<br>• Mae'r asesiad o'r risg o dwyll yn seiliedig ar risgiau hysbys o dwyll, meincnodi a gwybodaeth a phrofiad mewnol.<br>• Mae'r asesiad o'r risg o dwyll:<br>– wedi defnyddio staff â sgiliau priodol;<br>– wedi ystyried cudd-wybodaeth genedlaethol; ac<br>– wedi ystyried ei gudd-wybodaeth ei hun sy'n benodol i'r Cyngor.<br>• Mae'r asesiad o'r risg o dwyll yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu a Risg. |
| 3. A yw asesiadau o'r risg o dwyll yn cael eu defnyddio fel adnodd byw ac yn cael eu hintegreiddio o fewn y fframwaith rheoli risg cyffredinol i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio fel y bo angen? | • Mae'r Cyngor yn ystyried y risg o dwyll fel rhan o'i broses ar y cyfan ar gyfer rheoli risg.<br>• Mae'r risg o dwyll wedi'i chynnwys yng nghofrestrau risgiau adrannau a/neu gorfforaethol.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried y risg o dwyll ar gyfer ei holl systemau ac mae wedi ystyried sut i atal a chanfod twyll yn y system ac wedi 'diogelu ei weithdrefnau rhag twyll' mewn meysydd allweddol e.e. caffael, y gyflogres, credydwyr.<br>• Fe ymgynghorir â staff gwrth-dwyll/archwilio mewnol y Cyngor i ddiogelu polisïau, strategaethau a mentrau newydd rhag twyll ar draws adrannau. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Polisïau a Hyfforddiant** | |
| 4. A oes gan y Cyngor set gynhwysfawr ac wedi'i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau sydd, gyda'i gilydd, yn strategaeth gydlynol ar gyfer adnabod risgiau o dwyll, eu rheoli ac ymateb iddynt? | Strategaeth wrth-dwyll:<br>• mae gan y Cyngor strategaeth wrth-dwyll wedi'i diweddaru sy'n nodi ei ddull o reoli risgiau o dwyll ac yn diffinio cyfrifoldebau am weithredu;<br>• ceir croesgyfeirio rhwng y strategaeth wrth-dwyll a pholisïau cysylltiedig eraill h.y. cod ymddygiad, polisi chwythu'r chwiban a'r cynllun ymateb i dwyll; ac<br>• mae'r strategaeth wrth-dwyll wedi cael ei chyfleu i staff ac mae ar gael yn rhwydd i'r holl staff fel dogfen gyfeirio. |
| | Cod Ymddygiad:<br>• mae gan y Cyngor God Ymddygiad wedi'i ddiweddaru sy'n nodi'r safonau a ddisgwylir gan gyflogeion a chontractwyr, ac sy'n amlygu y bydd ymddygiad anfoesegol yn arwain at gamau disgyblu; ac<br>• mae'n ofynnol i holl staff y Cyngor ymrwymo i ofynion y Cod Ymddygiad. |
| | Chwythu'r Chwiban:<br>• mae gan y Cyngor drefniadau chwythu'r chwiban i sicrhau bod gan staff a phartïon allanol yr hyder i godi pryderon;<br>• mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer chwythu'r chwiban yn cael eu monitro o ran eu defnydd i ddangos y gweithredwyd ar ddrwg-dybion;<br>• mae polisi'r Cyngor ar chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddaru ac yn nodi mecanweithiau eglur i godi pryderon yn gyfrinachol ynghylch materion gan gynnwys twyll; ac<br>• mae'n rhaid i gontractwyr a thrydydd partïon ymrwymo i bolisi'r Cyngor ar chwythu'r chwiban hefyd. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| | Cofrestr Buddiannau:<br>• mae'r Cyngor yn cynnal ei gofrestr buddiannau'n rheolaidd i gofnodi buddiannau staff ac aelodau;<br>• mae'r gofrestr buddiannau'n cael ei chymharu'n rheolaidd â chynlluniau dirprwyo ar gyfer cymeradwyo gwariant;<br>• mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer sgrinio cyn cyflogi trwy amryw gamau gwirio e.e. y Swyddfa Cofnodion Troseddol i leihau i'r eithaf y risg o gyflogi staff anonest ac anfoesegol;<br>• mae gan y Cyngor bolisi atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth wedi'i ddiweddaru sy'n cynnwys trefniadau diwydrwydd dyladwy;<br>• mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr o roddion a lletygarwch ac mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r angen i gofrestru unrhyw roddion a lletygarwch a gafwyd; ac<br>• mae gan y Cyngor Gynllun Ymateb i Dwyll sydd:<br>– yn amlinellu'r broses gyfan ar gyfer ymchwilio i dwyll;<br>– yn diffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau uwch reolwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ymchwilio;<br>– yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer sicrhau tystiolaeth a chynnal cyfweliadau;<br>– yn nodi trefniadau ar gyfer ymdrin â staff a ddrwgdybir;<br>– yn cynnwys trefniadau ar gyfer pryd, a sut, i gysylltu â'r heddlu;<br>– yn ymrwymo i fynd ar drywydd yr ystod lawn o sancsiynau – yn rhai disgyblu, rheoleiddiol, sifil a throseddol;<br>– yn ei gwneud yn glir y bydd camau adfer yn cael eu cymryd mewn perthynas â cholledion o ganlyniad i dwyll; ac<br>– yn egluro sut y bydd gwersi a ddysgwyd o achosion o dwyll yn cael eu defnyddio i gryfhau rheolaethau er mwyn atal twyll rhag digwydd eto;<br>• mae'r Cyngor yn monitro bod honiadau o dwyll yn cael eu hasesu yn ôl ei Gynllun Ymateb i Dwyll; ac<br>• mae'r Cyngor yn ceisio iawn gan gynnwys adfer asedau ac arian a gollwyd i dwyll lle y bo'n bosibl |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| 5. A yw'r rhai sy'n gweithio i'r Cyngor yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll fel sy'n briodol i'w rôl i gynyddu effeithiolrwydd sefydliadol o ran atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys risgiau o dwyll o fewn ei hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff newydd.<br>• Mae'r Cyngor yn sicrhau mynychder priodol ar gyfer hyfforddiant diweddaru i'r holl staff ac aelodau etholedig/aelodau annibynnol.<br>• Mae effeithiolrwydd hyfforddiant gwrth-dwyll yn cael ei gadarnhau trwy brofi.<br>• Mae hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu risgiau/materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg |
| 6. A yw'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll yr ymdriniwyd yn llwyddiannus â hwy, i atgyfnerthu neges gadarn na fydd twyll yn cael ei oddef? | • Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll a brofwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r achosion o dwyll fel modd i rwystro twyll.<br>• Mae gan y Cyngor ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd mewnol ac allanol i hyrwyddo gwaith gwrth-dwyll, ac mae'n sicrhau bod y dudalen we ar waith gwrth-dwyll yn cael ei diweddaru'n gyson â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd perthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith gwrth-dwyll rhagweithiol mewn ymgais i leihau'r tebygolrwydd y bydd twyll yn digwydd. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Capasiti ac Arbenigedd** | |
| 7. A oes gan y Cyngor ddigon o gapasiti i sicrhau y darperir adnoddau ar gyfer gwaith gwrth-dwyll mewn modd effeithiol, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cyflawni'n broffesiynol ac mewn modd sy'n arwain at sancsiynau llwyddiannus yn erbyn y cyflawnwyr ac adfer colledion? | • Mae gan y Cyngor swyddog â chyfrifoldeb dynodedig am waith gwrth-dwyll sy'n cael cymorth gan yr uwch dîm arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>• Mae gan y Cyngor strwythur staffio sydd â dynodiad a llinellau atebolrwydd eglur a chyfathrebu mewnol da mewn perthynas â gwaith gwrth-dwyll.<br>• Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn gwaith gwrth-dwyll ac yn prynu gwasanaethau i mewn os nad oes unrhyw gapasiti yn fewnol. Er enghraifft, trefniadau i gael mynediad at dimau arbenigol ar gyfer ymchwilio i dwyll gan gynnwys: gwyliadwriaeth, gwaith fforensig ar gyfrifiaduron, adfer asedau, ymchwiliadau ariannol. |
| 8. A oes gan y Cyngor fynediad at staff gwrth-dwyll hyfforddedig sy'n cyrraedd safonau proffesiynol cydnabyddedig? | • Mae gan y Cyngor (neu mae ganddo fynediad at) arbenigwyr gwrth-dwyll cymwys, sydd wedi'u hyfforddi a'u hachredu'n broffesiynol i ymchwilio i dwyll tybiedig. Os gwneir y gwaith hwn gan dimau Archwilio Mewnol, dylai'r timau hynny fod wedi'u hyfforddi yn y maes hwn. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Offer a Data** | |
| 9. A oes gan y Cyngor ymatebion gwrth-dwyll deinamig ac ystwyth sy'n cynyddu i'r eithaf y tebygolrwydd o gamau gorfodi llwyddiannus? | • Mae strategaeth wrth-dwyll y Cyngor yn cynnwys dulliau rhagweithiol ac ymatebol.<br>• Mae gan y sefydliad gynllun gwrth-dwyll blynyddol lle mae'r rhaglen waith yn gytbwys.<br>• Ceir tystiolaeth bod buddsoddiad y Cyngor mewn gwaith gwrth-dwyll yn seiliedig ar benderfyniad gwybodus sy'n deillio o asesiad o'r risg o dwyll sy'n amlygu'r risgiau ac yna'n pennu'r adnoddau y mae eu hangen i ymdrin â'r risgiau hyn.<br>• Ceir tystiolaeth bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn gyflym os ceir nad yw rheolaethau mewnol yn perfformio cystal ag a fwriadwyd. Er enghraifft, gan y gwasanaeth archwilio mewnol, archwilwyr allanol, y Fenter Twyll Genedlaethol.<br>• Lle mae twyll wedi digwydd, ceir tystiolaeth o ddysgu ar ôl y digwyddiad, lle mae sefydliad yn ystyried sut y digwyddodd y twyll a thueddiadau posibl i ddysgu o hyn a lleihau digwyddiadau yn y dyfodol i'r eithaf. |
| 10. A yw'r Cyngor yn ceisio ac yn cofleidio cyfleoedd newydd i arloesi â dadansoddeg data i gryfhau'r modd y mae twyll yn cael ei atal a'i ganfod? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio ymarferion paru data, sy'n golygu cymharu setiau o ddata o fewn neu ar draws sefydliadau, i amlygu anghysonderau y gellir eu defnyddio i helpu i atal a chanfod twyll:<br>– ceisio cynyddu i'r eithaf waith fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol; a<br>– chyfleoedd eraill y tu hwnt i'r Fenter Twyll Genedlaethol.<br>• Lle adnabuwyd achosion o dwyll, mae'r gwendidau a fu'n sail i'r achosion hyn o dwyll yn cael eu bwydo yn ôl i adrannau i ddiogelu systemau rhag twyll. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| **Cydweithio** | |
| 11. A yw'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes dadansoddeg data, i rannu data a gwybodaeth i helpu i ddod o hyd i dwyll a brwydro yn ei erbyn? | • Mae strategaeth wrth-dwyll y Cyngor yn cynnwys partneriaethau cydweithio gyda sefydliadau eraill i reoli risgiau lle y bo'n briodol.<br>• Mae gan y Cyngor brotocolau i hwyluso prosesau ar gyfer cydweithio a rhannu cudd-wybodaeth gyda chyrff allanol e.e. memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer rhannu data.<br>• Ceir tystiolaeth bod y sefydliad yn rhoi'r gwersi ar waith trwy gydweithio i helpu i oleuo asesiadau risg.<br>• Cydweithio fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol. |
| **Adrodd a Chraffu** | |
| 12. A yw'r Cyngor yn coladu gwybodaeth am golledion a gafwyd ac a adferwyd ac yn rhannu cudd-wybodaeth am dwyll gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus i sefydlu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaethau, a gwella monitro a chefnogi camau gweithredu wedi'u targedu? | • Mae'r Cyngor yn cynnal cofnod o golledion o ganlyniad i dwyll a gafwyd ac a adferwyd.<br>• Mae gan y Cyngor fethodoleg benodedig i sicrhau bod colledion o ganlyniad i dwyll yn gallu cael eu hamcangyfrif yn gyson ac i ategu asesiad risg mwy cywir.<br>• Mae'r Cyngor wedi pennu amcanion a thargedau ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ac mae'n monitro perfformiad. |

| Cwestiynau | Meini Prawf Archwilio (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| 13. A yw Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â gwaith gwrth-dwyll, gan roi cymorth a chyfeiriad, gan fonitro a dwyn swyddogion i gyfrif? | • Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl weithredol mewn gwaith gwrth-dwyll ac mae'n deall amgylchedd rheolaeth a risgiau'r Cyngor, gan gynnwys risgiau o dwyll.<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybodaeth am lwythi achosion twyll a chynnydd yn hynny o beth yn rheolaidd (o leiaf ddwywaith y flwyddyn).<br>• Mae gwaith y tîm gwrth-dwyll yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau bod ei berfformiad yn ateb y gofynion/yn cyrraedd safonau ansawdd. |

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.